Beibl i Blant
yn cyflwyno



# Josua yn dod yn arweinydd

Awdur: Edward Hughes
Lluniau gan: Janie Forest
addaswyd gan: Ruth Klassen
Cyfieithydd: Catrin Roberts
Cynhyrchwyd gan: Bible for Children
www.M1914.org

BFC
PO Box 3
Winnipeg, MB R3C 2G1
Canada

©2015 Bible for Children, Inc.
Trwydded: mae gennych hawl i gopïo neu argraffu'r stori hon, ar yr amod nad ydych yn ei gwerthu.

Yr oedd Moses wedi marw. Gwyddai Josua fod Duw wedi ei ddewis i arwain yr Israeliaid. Cyn paratoi ei fyddin, roedd yn rhaid i Josua baratoi ei hun.  Addawodd Duw y byddai'r bobl yn cael bywyd da yng Ngwlad yr Addewid-dim ond iddyn nhw wrando arno ac ufuddhau.



Addawodd yr Israeliaid y bydden nhw’n dilyn Josua ac yn ufuddhau i Dduw bob amser.



Anfonodd yr arweinydd newydd, doeth ysbiwyr i wlad Canaan i edrych ar amddiffynfeydd dinas fawr Jericho. Byddai brwydr gyntaf Israel yn digwydd yma.



Dywedodd rhywun wrth Frenin Jericho fod yna ysbiwyr yn y dref. Anfonodd filwyr i ddod o hyd iddyn nhw. Dechreuson nhw chwilio tŷ Rahab, lle roedd y dynion yn aros. Cnociodd y milwyr yn galed ar ddrws ei thŷ. Cuddiodd Rahab y dynion yn gyflym o dan bentyrrau o lin.

Wedi i'r milwyr adael, defnyddiodd Rahab rhaff goch i ollwng y dynion yn ddiogel i lawr waliau'r ddinas. Pam oedd hi'n helpu'r ysbiwyr? Achos bod hi'n gwybod fod Duw gyda nhw. Roedd hi am i Dduw arbed ei bywyd. Addawodd yr ysbiwyr y bydden nhw'n achub Rahab a'i theulu.



Cyn cyrraedd Jericho, roedd yn rhaid i’r Israeliaid groesi’r Afon Iorddonen a chyrraedd Canaan, Gwlad yr Addewid.  Ond doedd dim pont!  Sut allai’r bobl groesi?



Dywedodd Duw wrth Josua am wneud i'r offeiriaid fynd o flaen y milwyr a'r bobl. Roedden nhw i gario'r arch lle roedd y Deg Gorchymyn yn cael eu cadw. Pan gyffyrddodd traed yr offeiriaid â'r dŵr, digwyddodd gwyrth. Gwnaeth Duw lwybr sych trwy'r afon.



Wedi i bawb
groesi'n ddiogel,
dyma nhw'n rhoi un
deg dau carreg
fawr ar wely'r afon,
a un deg dau carreg
arall ar ochr
Canaan i'r afon.
Byddai rhain yn
atgoffa'r bobl bod
angen dysgu eu
plant am allu mawr
a chariad Duw.





Roedd waliau cryf, llydan o amgylch Jericho.  Wrth i Josua gynllunio'r ymosodiad, anfonodd Duw Gapten ei fyddin o'r Nefoedd i atgoffa arweinydd newydd Israel bod Duw yn ennill brwydrau ar ran ei bobl.



Dywedodd Duw wrth Josua sut i ymosod ar Jericho. Dyna gynllun od! Roedd pobl Dduw i gerdded o amgylch y ddinas, un waith y diwrnod am chwe diwrnod, ac yna saith gwaith ar y seithfed dydd. Yna roedden nhw i chwythu utgyrn a gweiddi – a byddai waliau'r ddinas yn syrthio i lawr!

Gwnaeth Josua a'i fyddin yn union fel dywedodd Duw.  Efallai bod pobl Jericho wedi chwerthin arnyn nhw.  Ond ar ôl cerdded y seithfed gwaith ar y seithfed dydd, dyma'r offeiriad yn canu'r utgorn.





Ac yn union fel roedd Duw wedi addo …
SYRTHIODD WALIAU MAWR JERICHO I LAWR!





Dim ond tŷ Rahab oedd yn ddiogel.  Roedd hi wedi gadael y rhaff goch yn hongian o'r ffenestr.  Cafodd Rahab a'i theulu eu hachub gan ddynion Josua.  Yna, cafodd dinas Jericho ei dinistrio, yn ôl gorchymyn Duw.

Cyflwynodd Josua aur,



arian a thrysorau Jericho
at wasanaeth Duw.  Yna
rhoddodd felltith ar unrhyw un fyddai'n
ailadeiladu'r ddinas ddrwg.  Cyn hir, roedd
pawb yn Canaan wedi clywed am Josua yn
concro Jericho.  Roedden nhw'n
gwybod fod Duw gyda'i bobl.

Josua yn dod yn arweinydd

Stori o Air Duw, y Beibl

sydd i'w gweld yn

Josua 1-6

"Pan ddatguddir dy air, bydd yn goleuo."
Salm 119:130

# Y Diwedd

Mae'r stori hon o'r Beibl yn dysgu ni am ein Duw rhyfeddol. Fe wnaeth ein creu ni, ac mae eisiau i ni ei adnabod.

Mae Duw yn gwybod bod ni wedi gwneud pethau drwg, beth mae e'n galw'n bechod. Cosb pechod ydy marwolaeth, ond mae Duw yn dy garu di gymaint nes ei fod wedi anfon ei unig Fab, Iesu, i farw ar Groes, a chymryd y gosb am dy bechod di. Yna daeth Iesu'n ôl yn fyw a mynd adref i'r Nefoedd! Os wyt ti'n credu yn Iesu ac yn gofyn iddo faddau dy bechodau, mae'n barod i wneud hynny! Bydd yn dod i fyw ynot ti nawr, ac fe gei di fyw gydag E am byth.

Os wyt ti'n credu bod hyn yn wir, beth am ddweud hyn wrth Dduw: Annwyl Iesu, rwy'n credu i ti ddod yn ddyn i farw dros fy mhechodau, a dy fod ti'n fyw eto. Os gweli'n dda, tyrd i mewn i'm bywyd. Maddau fy mhechodau i mi gael bywyd newydd nawr, ac yna un diwrnod bod hefo ti am byth. Helpa fi i fod yn ufudd i ti, a byw fel plentyn i ti. Amen.

Darllena'r Beibl, a siarad gyda Duw bob diwrnod! Ioan 3:16